Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**Telerau ac Amodau E-Recriwtio Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

## Diogelu eich data

Defnyddir y wybodaeth a ddarparwyd ar ffurflen hon i brosesu eich fffurflen gais ar gyfer cyflogi. Os bydd eich ffurflen gais yn llwyddiannus, cedwir rhywfaint o wybodaeth i gwblhau eich ffeil cofnodi personél. Darllenwch y rhybudd preifatrwydd sy'n egluro sut rydym yn defnyddio a diogelu'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu.

## Sut i gwblhau eich ffurflen Gais

Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen y nodiadau canllaw yn ofalus cyn cwblhau ffurflen gais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich cais, cysylltwch â'r Tîm Recriwtio ac Asesu drwy law e-bost ar: personél@decymru-tan.gov.uk.

## Eich cyfrifoldebau

Cwblhewch eich ffurflen gais gorau galllwch o ran eich gwybodaeth a'ch gallu. **Gallai darparu gwybodaeth anwir, anghywir neu gamarweiniol a/neu atal gwybodaeth arwain at wrthod eich ffurflen gais neu, ac os byddwch wedi cychwyn yn y swydd, gallai arwain at derfynu eich cyflogaeth.** Drwy gyflwyno'r ffurflen rydych chi'n cytuno i hysbysu'r Tîm Recriwtio ac Asesu:

- Os bydd newidiadau perthnasol i'ch amgylchiadau neu eich manylion personol.
- Os ydych chi wedi gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r dyddiad gadawoch chi'r swydd.
- Os ydych chi'n perthyn i weithwyr cyfredol neu aelodau o'r Awdurdod Tân.

Noder: ni fydd perthyn i aelod o'r Awdurdod Tân neu weithiwr yn atal eich ffurflen gais rhag cael ei phrosesu. Defnyddir y wybodaeth hon i'ch diogelu rhag cael unrhyw berthynas yn rhan o'r broses ddethol.

## Addasiadau rhesymol

Mae Deddf Cydraddoldeb Sengl 2010 yn gwahardd gwahaniaethu, erledigaeth neu aflonyddu mewn cyflogaeth, gan gynnwys recriwtio. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn croesawu recriwtio pobl ag anableddau. I gefnogi eich cais, rhowch wybod i ni os ydych chi'n credu bod unrhyw addasiadau rhesymol y dylem fod yn eu gwneud i gynorthwyo â'ch cais a/neu eich galluogi chi i gyflawni'r swydd.

**Monitro cyfleoedd cyfartal**

Rydym yn credu y dylai ein gweithlu adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu a bod ein hamgylchedd gwaith yn rhydd o bob gwahaniaethu, erledigaeth neu aflonyddu. Ni ymdrinir ag unrhyw ymgeisydd na gweithiwr yn fwy nac yn llai ffafriol ar sail rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oed, statws priodasol, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw croen, cenedl, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd, cred nac anableddau.

Ni fydd unrhyw ymgeisydd na gweithiwr dan anfantais o ganlyniad i ddarpariaeth, maen brawf nac arfer na ellir ei brofi'n fodd cymesur i gyrraedd nod dilys. Er mwyn monitro effeithiolrwydd ein strategaeth gydraddoldeb ac amrywiaeth, gofynwn am fanylion personol penodol gennych chi. Ymdrinnir â'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni'n hollol gyfrinachol a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig, ac nid yw'n rhan o'r broses ddethol.

**Safonau moesegol a phroffesiynol**

Mae gofyn i chi ddatgan a ydych chi wedi cael eich cyhuddo o unrhyw drosedd troseddol (gan gynnwys troseddau gyrru) ac eithrio'r rhai sy wedi 'darfod' dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 2974. Os ydych yn ansicr a yw trosedd wedi 'darfod' ewch at www.nacro.org.uk am ragor o wybodaeth.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn disgwyl y safonau uchaf o ran moeseg gan ei weithwyr. Nodwch y gallai'r Gwasanaeth wneud ymholiadau i wirio'r wybodaeth a ddarperir gennych.

**Ein Gwerthoedd**

Mae ein gwerthoedd yn diffinio'r hyn rydym yn sefyll drosti a sut rydym yn gweithredu fel sefydliad. Wrth gyflwyno'r ffurflen gais hon rydych chi'n cytuno eich bod chi wedi darllen a deall ein gwerthoedd. Fel gweithiwr bydd angen i chi ymroi i ymarfer a hyrwyddo ein gwerthoedd yn weithredol. Mae ein gwerthoedd yn bwysig i ni a dylent gael eu hadlewyrchu ym mhopeth rydym yn ei wneud. Pryd bynnag y byddwch yn dod i gysylltiad â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, fel aelod o'r cyhoedd, partner, busnes neu aelod o staff, dylai'r gwerthoedd hyn fod yn fythol amlwg:

**YN OFALGAR**: Byddwn yn ofalus a thosturiol, gan arddangos consyrn ac empathi i eraill.

**YN BWRPASOL**: Rydym yn ymroddgar i'r cymunedau lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â hwy. Rydym yn ymroddedig i achub bywydau a gweithio mewn partneriaeth fel rhan annatod o'n cymunedau.

**YN DDISGYBLEDIG**: Rydym yn glir ynghylch ein rolau ac yn gweithredu o fewn lefelau cymeradwy o ran awdurdod, o fewn awyrgylch ddisgybledig. Ystyriwn taw hunan ddisgyblaeth yw ffurf uchaf disgyblaeth.

**YN RYMUS**: Byddwn yn cofleidio, ac rydym yn alluog, i newid a chael ein newid. Rydym yn cyfranogi mewn gweithgareddau grymus, gydag egni a brwdfrydedd, gan gyflawni effeithiolrwydd mawr.

**YN BROFFESIYNOL**: Byddwn yn arddangos proffesiynoldeb ym mhopeth y gwnawn. Golyga hyn byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau mewn modd cymwys a dibynadwy, yn arddangos arbenigedd ym mhopeth y gwnawn ac yn sicrhau ein bod yn arddangos ymroddiad i'r safonau uchel a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar bob adeg.

**YN HYDWYTH**: Byddwn yn rhagdybio risg, lleihau effaith, ac yn adlamu'n ôl wrth arddangos cymhwysedd, esblygiad a chynnydd yn wyneb newid cythryblus. Byddwn yn gwrthsefyll ac yn adfer rhag amodau anodd yn gyflym.

**YN BARCHUS**: Byddwn yn parchu ein gilydd a'r cymunedau yr ydym yn gwasanaethu. Mae hyn yn golygu trin pobl yn deg, cydnabod gwahaniaethau ac adnabod cyfraniad ein cydweithwyr a'n cymunedau.

**YN DDIBYNADWY**: Gellir dibynnu arnom i fod yn onest a geirwir.

**Canolwyr a chanfasio**

Rydych chi'n gyfrifol am hysbysu pob trydydd parti bod eu manylion yn cael eu cynnwys yn y mewn ffurflen gais hon.
Ni ddylai aelodau neu aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod Tân weithredu fel canolwyr na rhoi tystebau mewn perthynas â'ch cais. Bydd canfasio Aelodau neu Aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod Tân naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn diarddel ymgeiswyr rhag penodi.

**Datganiad**

Wrth gyflwyno'r ffurflen gais rydych chi'n cadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd yn wir, yn gywir ac yn gyfan.

**Nodiadau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr mewnol yn unig**

Os ydych chi'n ceisio ar gyfer swydd dros dro drwy secondiad, wnewch yn siwr eich bod chi wedi cael awdurdodiad i geisio am y swydd gan eich rheolwr llinnell drwy gwblhau Ffurflen
P-62 ar gyfer Cais am Secondiad.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

## Canllawiau ar gyfer Cwblhau'r Ffurflen Gais Ar-lein

Gofynnir i **bob** ymgeisydd gwblhau Ffurflen Gais Ar-lein wrth geisio am swydd wisg neu swydd ddi-wisg ill dau gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Mae hyn yn berthnasol i staff mewnol ac allanol.
Unwaith bydd ymgeisydd wedi cofrestri ei fanylion/manylion personol, bydd y wybodaeth hon yn aros ar y system a gellir ei diweddaru'n hawdd. Ar ôl i ymgeisydd gyflwyno ffurflen gais ar gyfer swydd, bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chadw ar y system a gellir cyfeirio ati unrhyw bryd. Gofynnir i chi fewngofnodi ac allgofnodi o'r porthol.
**Noder:** Rhaid cwblhau pob maes a ddynodir â * ar y ffurflen gais ar-lein neu ni fydd yn bosib i chi gadw'r wybodaeth a symud ymlaen i'r adran nesaf.

### Eich Ffurflen Gais

Bwriad y rhan hon o'r ffurflen yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) sut maent yn bodloni gofynion penodol y swydd y maent yn ymgeisio amdani.

Nid yw GTADC yn derbyn ffurflenni Curriculum Vitae (CV) fel modd ymgeisio, oni bai bod yr hysbyseb swydd yn gofyn am hynny'n benodol. Peidiwch ag atodi CV fel gwybodaeth ychwanegol gan **na fyddant** yn cael eu derbyn.

Mae'r ffurflen gais ar-lein yn cyflawni rôl bwysig. Mae'n cynorthwyo'r panel sy'n llunio'r rhestr fer i benderfynu pa ymgeiswyr y dylid eu hystyried ymhellach a'u gwahodd i gymryd rhan yng ngham(au) nesaf y broses ddethol.

Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod pob adran o'r ffurflen wedi'u cwblhau’n gyfan, a bod pob adran yn cael eu gwirio cyn symud ymlaen i'r un nesaf. Fe'ch argymhellir i wirio'r ffurflen eto cyn ei chyflwyno, gan ni ellir ei diwygio wedyn.

### Manylion Personol

Cwblhewch y blychau a ddarperir gan sicrhau bod eich cyfeiriad e-bost yn gywir ac yn weithredol gan mai i'ch cyfeiriad e-bost y danfonir gohebiaeth.

**Addysg, Cymwysterau a Hyfforddiant**

Bwriad yr adran hon yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddarparu manylion am y cymwysterau proffesiynol maent wedi eu hennill. Nid yw'n ofynnol i'r ymgeisydd gynnwys pob cymhwyster a enillwyd ganddynt hyd yn hyn oni bai y gellir perthnasu'r cymhwyster yn uniongyrchol i'r rôl a'r/neu'r Fanyleb Person.

Gofynnir am dystiolaeth o gymwysterau yn dilyn cynnig cyflogaeth gychwynnol a gall methu â chyflwyno'r tystysgrif(au) gofynnol arwain at oedi mewn cychwyn y swydd neu dynnu'r cynnig cyflogaeth yn ôl.

**Hanes eich Cyflogaeth**

Bwriad yr adran hon yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr rhoi manylion am eu cyflogaeth gyfredol a blaenorol, gan gynnwys gwaith llawn amser a rhan-amser, cytundebau parhaol a dros dro, gwaith i asiantaethau, gwaith gwirfoddol a phrofiad gwaith. Dylai'r ymgeisydd hefyd gynnwys gwybodaeth am unrhyw fylchau o ran cyflogaeth, gan ddefnyddio'r ffurflen hanes eich cyflogaeth i gofnodi'r rhesymau a'r dyddiadau. - Ni fydd hyn yn effeithio ar y cais a bydd yn gymorth i'r Tîm Recriwtio gael cyfrif cyflawn a chywir o'ch profiadau gwaith a phrofiad bywyd.

**Canolwyr**

Bwriad yr adran hon yw i'r ymgeisydd ddarparu enwau a manylion cyswllt canolwyr cyflogwr sy'n cwmpasu o leiaf tair blynedd o heddiw. Dylai un o'r canolwyr fod yn gyflogwr cyfredol neu ddiweddaraf, ac nid yn aelod o'r teulu. Ni fydd y Tîm Recriwtio yn gofyn am eirda gan gyflogwr cyfredol nes bydd yr ymgeisydd wedi cael cynnig penodi amodol.

Os bydd unrhyw fylchau mewn hanes cyflogaeth ymgeisydd neu os na fydd ymgeisydd wedi cychwyn cyflogaeth, e.e. os yw neu os ydoedd yn fyfyriwr, yn ddi-waith neu sydd â chyfrifoldebau/wedi cael cyfrifoldebau gofal, gellir darparu canolwyr o ysgol, coleg neu berson proffesiynnol ond nad yw'r aelod o'r teulu neu aelod o staff a gyflogir yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae dau fwriad i'r adran hon o'r ffurflen:

1. I gasglu gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd o ran gofynion cyfreithiol, e.e. caniatâd i weithio, datganiad troseddau, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
2. I'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau sy'n benodol i'r rôl y mae'n ymgeisio ar ei chyfer.

Rhaid ateb **pob** cwestiwn

**Collfarnau Troseddol/Datganiad Troseddau**

Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn gadael i bobl â throseddau i gael eu hail-integreiddio i gymdeithas drwy gael yr hawl i gael eu trosedd(au) wedi'u diystyrru ar ôl cyfnod o amser, h.y. maent wedi 'darfod'.

**Rolau ymladdwr tân a staff corfforaethol** - Mae gan GTADC hawl gyfreithiol i gynnal gwiriad troseddol sylfaenol, a elwir yn Wasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) sy'n datgelu troseddau 'anhreuliedig' yn unig i'r sawl sy'n ymgeisio am y rolau hyn. Bydd hyn yn rhan o'r gwiriadau cyn cyflogi a gyflawnir â chaniatâd yr ymgeisydd.

**Rolau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaeth** - Gofynnir am wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd uwch ar gyfer y rolau hyn, e.e. rolau o fewn y gymuned lle bydd gweithwyr yn gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed a phlant. Bydd y gwiriad hwn yw dangos manylion troseddau sydd wedi treulio a throseddau 'anhreuliedig' ill dau. Bydd y gwiriad hwn yn ffurfio rhan o'r gwiriadau cyn cyflogi ac fe'u cyflawnir gyda chaniatâd yr ymgeisydd ac unrhyw drafodaeth bellach mewn perthynas â throseddau y gallai fod angen eu hystyried.

**Collfarnau Anhreuliedig** – Bydd angen i'r ymgeisydd ddatgan unrhyw gollfarnau **'heb ddarfod'** cyn y gwiriadau cyn cyflogi. Mae'n bwysig nodi nad yw cael collfarn anhreuliedig o reidrwydd yn golygu na fydd ceisiadau'n cael eu prosesu, gan ddibynnu ar natur y drosedd a'r swydd dan sylw. Mae hefyd yn bwysig nodi y gall methu â datgelu collfarn anhreuliedig arwain at gael eich tynnu o'r broses recriwtio neu derfynu eich cyflogaeth.

Os nad yw ymgeiswyr yn gwybod a oes ganddynt gollfarn wedi dyddio neu os ydynt yn dymuno cael mwy o wybodaeth am gollfarnau troseddol, cyfnodau ailsefydlu ac ati, ceir manylion pellach yn www.nacro.org.uk.

## **Manylion Dogfennau Ymgeiswyr**

Mae'r adran hon yn orfodol ac yn gyfle i ymgeiswyr uwchlwytho dogfen sy'n amlinellu'n fanwl sut maent yn credu eu bod yn cwrdd â meini prawf y rhestr fer a’n/neu’n ateb gofynion y rôl. Cyfeiriwch at y Fanyleb Person a'r Swydd-Ddisgrifiad cyn cyflwyno cais.

Lle amlygir y gallu i siarad Cymraeg naill ai fel maen prawf Hanfodol neu Ddymunol, bydd modd i chi nodi hwn yn yr adran hon hefyd.

PEIDIWCH ag uwchlwytho CV yma, oni bai bod yr Hysbyseb Swydd yn gofyn yn benodol am gyflwyno CV, gan na fydd yn cael ei ystyried.

## **Dogfennau Cefnogol**

**Swydd-Ddisgrifiad** – Mae'r Swydd-Ddisgrifiad yn esbonio prif bwrpas y Swydd a chyfrifoldebau deiliad y swydd. Dylai ymgeiswyr ystyried a meddwl am hanes eich cyn gyflogaeth a phrofiadau sy'n debyg i, ac a allai fod yn gysylltiedig â'r cyfrifoldebau a ddisgrifir yn y swydd-ddisgrifiad.

**Y Fanyleb Person** – Dylai ymgeiswyr astudio'r Fanyleb Person yn fanwl. Mae'r ddogfen hon yn dweud wrth ymgeiswyr am y math o wybodaeth, profiad, rhinweddau personol a phriodoleddau (RhPP) eraill y bydd eu hangen ar unigolyn i gyflawni'r swydd yn llwyddiannus ac i'r safon ofynnol. Bydd y Fanyleb Person yn dangos y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ceisiadau ar gyfer swydd benodol, a ddynodir yn Hanfodol (yn y cam ymgeisio) mewn print bras gyda seren*****. Yn eich ffurflen cais dylech gyfeirio'n fanwl at bob un o'r meini prawf a ddynodir mewn print bras, gan roi tystiolaeth am sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf gan y defnyddir y rhain ar gyfer llunio'r rhestr fer.

Er mwyn bod yn llwyddiannus wrth lunio rhestr fer, dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth drwy esbonio'r hyn y maent wedi'u wneud neu wedi'u gyflawni mewn perthynas â phob un o feini prawf Hanfodol y Fanyleb Person. Bydd y panel llunio rhestr fer dim ond yn ystyried ceisiadau lle mae ymgeiswyr wedi dangos eu bod yn bodloni holl feini prawf Hanfodol y rhestr fer. Fe'ch argymhellir i fynd i'r afael â'r meini prawf yn y drefn y maent yn ymddangos ar y Fanyleb Person gan ddefnyddio penawdau.

Mae'n bwysig bod yn gryno - nid yw rhestru sgiliau yn unig yn ddigonol - mae angen tystiolaeth ac enghreifftiau i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf. Un enghraifft fyddai, yn lle dweud "Rwy'n gyfathrebwr da", amlinellwch enghraifft lle defnyddioch eich sgiliau cyfathrebu, megis "Roeddwn i'n ymwybodol bod y wybodaeth yn ddryslyd, felly cymerais amser gan ddefnyddio iaith glir i egluro wrth y cwsmer beth oedd angen iddynt ei wneud a pham". Dylech osgoi ailadrodd geiriad y Fanyleb Person - bydd angen i chi ddangos yr hyn rydych wedi'i wneud a sut mae hyn yn

bodloni gofynion y Fanyleb Person.

Defnyddir y wybodaeth a roddir gennych chi i asesu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y broses ddethol. Dim ond os oes nifer uchel o ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf Hanfodol y bydd meini prawf dymunol yn cael eu hystyried a byddai'n anymarferol gwahodd pob ymgeisydd i'r broses ddethol.

Lle nodir cymhwyster fel maen prawf ar gyfer y rhestr fer, dylech ei gofnodi yn yr adran Addysg, Cymwysterau a Hyfforddiant. Fodd bynnag, os ydych am roi mwy o fanylion ynghylch eich cymhwyster, gallwch wneud yma.

**Gwirio Eich Ffurflen Gais**

Cyn cyflwyno'ch cais, darllenwch drwy'r wybodaeth rydych wedi'i darparu neu gofynnwch i rywun edrych drwyddi gan na fyddwch yn gallu gweld eich camgymeriadau eich hun o bosib.

**Cyflwyno eich Ffurflen Gais**

Ar ôl cwblhau eich ffurflen bydd rhaid i chi bwyso'r botwm 'cyflwyno'. A fyddwch cystal â nodi unwaith y bydd eich ffurflen wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw newidiadau iddi, hyd yn oed cyn dyddiad cau'r swydd.
Byddwch yn cael gwybod bod eich ffurflen wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus o fewn 48 awr.

Ni fyddwn yn derbyn ffurflenni cais hwyr neu ffurflenni heb eu cyflwyno ar ôl y dyddiad a'r amser cau, er gwaethaf eich rheswm. Eich cyfrifoldeb chi felly yw sicrhau eich bod yn cyflwyno'ch cais a'ch bod wedi derbyn y neges hysbysu, cyn dyddiad cau'r swydd.

**Cyfleoedd Cyfartal**

O fewn GTADC, rydym yn gwerthfawrogi ein gweithlu amrywiol ac yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal wrth weithio i'r Gwasanaeth. Mae'n bwysig i ni felly allu monitro ein darpariaeth Cyfleoedd Cyfartal. Rydym wedi cynnwys adran ar Fonitro Cydraddoldeb yn y Ffurflen Gais Ar-lein. Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn y rhan hon o'r ffurflen yn cael ei defnyddio at ddibenion ystadegol a monitro yn unig, ac ni fydd yn cael ei gweld gan y paneli llunio rhestr fer neu dethol.

Mae Deddf Cydraddoldeb Sengl 2010 yn gwahardd gwahaniaethu, erlid neu aflonyddu mewn perthynas â chyflogaeth, gan gynnwys y cam recriwtio. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n croesawu recriwtio pobl ag anghenion arbennig ac/neu anableddau. I gefnogi'ch cais, rhowch wybod i ni os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i'ch helpu gyda'ch cais neu'r broses ddethol. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i gynllunio cymorth priodol i chi (e.e. mewn achos o ddyslecsia, mae'n bosib y bydd angen i ni drefnu amser ychwanegol i ymgeisydd

os bydd y broses ddethol yn cynnwys prawf ysgrifenedig ac mae cael y wybodaeth hon ymlaen llaw yn caniatáu i ni greu amser priodol yn ein hamserlen).

Pe byddai'n well gennych/Os hoffech drafod gofynion cymorth gyda ni, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Recriwtio ac Asesu ar 01443 232200, a fydd yn trefnu i chi gael y cymorth priodol. Ni fydd ceisio cymorth yn effeithio ar eich cais mewn unrhyw ffordd.

## Sgrinio Meddygol a Phrofion Cyffuriau ac Alcohol

Mae pob cynnig amodol o benodiad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n amodol ar sgrinio meddygol a phrawf cyffuriau ac alcohol. Mae rolau gweithredol (e.e. Ymladdwr Tân) yn amodol ar asesiad meddygol a ffitrwydd cyflawn.

## Asesiadau Ychwanegol

Efallai y bydd angen cynnal asesiadau ychwanegol ar gyfer rhai o'r rolau gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru megis asesiadau iaith Gymraeg, asesiadau gyrru ac asesiadau corfforol ac ymarferol. Tynnir eich sylw at y gofynion hyn yng ngham ymgeisio'r broses.

## Adborth i Ymgeiswyr

Lle bo'n ymarferol gellir darparu hon yng ngham llunio'r Rhestr Fer a'r broses Ddethol ill dau. Fodd bynnag, a fyddwch cystal â nodi bod hyn yn dibynnu ar nifer yr ymgeiswyr a ddaeth drwy'r broses yn ôl disgresiwn y Rheolwr Recriwtio.

## Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu trin yn broffesiynol ac yn deg drwy gydol y broses recriwtio. Mae'r Tîm Recriwtio yn croesawu adborth gan ymgeiswyr am eu profiadau o'r broses recriwtio a dethol.

## Cysylltwch â ni

Os ydych yn cael unrhyw broblemau wrth ddefnyddio ein system ar-lein neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, anfonwch e-bost at y Tîm Recriwtio ar personél@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232200. Oriau'r swyddfa yw 09:00 i 17:00. Noder: Nid ydym ar gael ar benwythnosau na Gwyliau Banc, ond gallwch adael neges ar ein gwasanaeth awtomataidd.

**Hoffai'r Tîm Recriwtio ddymuno pob lwc i chi yn y broses ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.**